RHIF COFRESTREDIG: 24287 R (Cymru a Lloegr)

# Cwmpas

# Adroddiad Blynyddol a

# Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Haines Watts Wales LLP, Archwilwyr Statudol
7 Neptune Court
Vanguard Way
Caerdydd
CF24 5PJ

# Cynnwys y Datganiadau Ariannol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024


| | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth am y Gymdeithas | 1 |
| Adroddiad Blynyddol | 2 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 7 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | 10 |
| Y Fantolen | 11 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 12 |
| Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl | 23 |

Gwybodaeth am y Gymdeithas
ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | | |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr: | Bethan Webber | |
| **Ysgrifennydd :** | Bethan Webber | |
| **Y Bwrdd – Aelodau Etholedig:** | Richard Hughes (Cadeirydd) | Penodwyd yn Gadeirydd, fel Aelod presennol o'r Bwrdd Medi 2023 |
| | David Jenkins | Ymddiswyddodd fel Cadeirydd ac o'r Bwrdd Medi 2023 |
| | Angharad Dalton (Is-gadeirydd) | |
| | Jeff Andrews (Trysorydd) | |
| | John Chown | |
| | Nigel Keane | Ailetholwyd Medi 23, ymddiswyddodd Mawrth 24 |
| | Gareth Yeoman-Evans | |
| | Grahame Sturges | etholwyd Medi 23, ymddiswyddodd Ebrill 24 |
| | Babs Lewis | etholwyd Medi 23 |
| **Y Bwrdd – Aelodau Annibynnol:** | Ben Pritchard | |
| | Kit Wilson | |
| | Amanda Rees | |
| Y Bwrdd – Aelod Enwebedig y TUC: | **Nisreen Mansour** | |
| | | |
| Swyddogion Eraill (Uwch Dîm Arwain): | | |
| | Glenn Bowen – Cyfarwyddwr Menter | |
| | Jocelle Lovell – Cyfarwyddwr Cymunedau Cynhwysol | |
| | Sarah Evans – Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghori | |
| | Joanne Jones – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (ymddiswyddodd 19 Gorff 24) | |
| | Paul Seymour – Cyfarwyddwr Cyllid Interim (penodwyd 10 Gorffennaf 24) | |
| | | |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Adeilad Spark,<br>Maindy Road,<br>Caerdydd<br>CF24 4HQ | |
| | | |
| **Rhif Cofrestredig:** | 24287 R (Mutuals Public Register - FCA) | |
| | | |
| **Archwilwyr:** | Haines Watts Cardiff,<br>7 Neptune Court,<br>Vanguard Way,<br>Caerdydd<br>CF24 5PJ | |

Adroddiad Blynyddol
ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Mae'r Swyddogion a'r Bwrdd yn cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI
Mae Cwmpas wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae'n cael ei lywodraethu o dan reolau'r gymdeithas.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethu'r gymdeithas yn gyffredinol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu hethol i'r bwrdd gan aelodau Cwmpas, neu eu penodi gan y Bwrdd i lenwi bylchau mewn sgiliau neu brofiad. Mae TUC Cymru hefyd yn enwebu aelod i'r bwrdd.

Mae partneriaeth effeithiol rhwng aelodau'r Bwrdd a gweithwyr yn hanfodol i lwyddiant y gymdeithas. Mae gan Cwmpas Grŵp Ymgynghorol ar y Cyd (JCG) sy'n cynnwys cynrychiolwyr undebau a staff yn ogystal ag aelodau bwrdd ac aelodau'r Uwch Dîm Arwain. Pwrpas y JCG yw rhannu gwybodaeth am ddatblygiad gweithgareddau Cwmpas a galluogi rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ar faterion yn ymwneud â chyflogaeth a llesiant yn Cwmpas. Mae'r Bwrdd yn cydnabod undeb llafur y GMB ac yn negodi gyda'r undeb ar gyflog ac amodau.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn chwarterol, gyda sesiynau cynllunio strategaeth a risg, fel y bo gofyn. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd un is-bwyllgor, sef y Pwyllgor Risg ac Archwilio.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo arfer rhai pwerau yn gysylltiedig â rheoli a gweinyddu Cwmpas, a nodir yn y Rhestr Awdurdod Dirprwyedig. Mae'r polisi hwn yn nodi'r penderfyniadau a neilltuir i'r Bwrdd, ac y mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud gan y Bwrdd, a'r penderfyniadau hynny lle y dirprwyir awdurdod gan y Bwrdd i gyfarwyddwyr unigol, megis y cadeirydd, pwyllgorau'r bwrdd neu'r prif weithredwr. Rheolir hyn drwy ofyn am adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd fel y gall y Bwrdd llawn oruchwylio'r holl benderfyniadau a wneir o dan bwerau dirprwyedig maes o law.

**Y Pwyllgor Risg ac Archwilio**
Mae'r Pwyllgor Risg ac Archwilio yn cynnwys o leiaf 3 aelod. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Mae'n cymryd cyfrifoldeb dirprwyedig ar ran y Bwrdd am sicrhau bod fframwaith priodol o atebolrwydd o fewn y gymdeithas, gan gynghori'r Bwrdd ar faterion atebolrwydd ariannol, rheoli risg a llywodraethu.

**Prif Weithredwr a Phersonél Rheoli Allweddol eraill**
Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion Cwmpas o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Amlinellir personél rheoli allweddol eraill ar dudalen 1 fel swyddogion eraill. Mae eu tâl yn cyd-fynd â graddfeydd cyflog Cwmpas.

**AMCANION A PHRIF WEITHGAREDDAU**
Mae Cwmpas, a sefydlwyd 40 mlynedd yn ôl, yn asiantaeth ddatblygu gydweithredol. Credwn y dylai ein heconomi a'n cymdeithas weithio'n wahanol, gan roi pobl a'r blaned yn gyntaf.

Yn 2022, gosododd y Bwrdd strategaeth bum mlynedd newydd a, rhwng 2022 a 2027, byddwn yn gweithio ar draws tair cenhadaeth allweddol i gyflawni ein diben:

- Cenhadaeth 1. Creu economi decach a gwyrddach – rydym yn gweithio i gynyddu'r gyfran o fentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr a geir o fewn yr economi.
- Cenhadaeth 2. Adeiladu cymdeithas fwy cyfartal - Rydym yn gweithio i ddatblygu cyfiawnder cymdeithasol trwy gynyddu mynediad, tegwch, amrywiaeth a chyfranogiad.
- Cenhadaeth 3. Gwneud i newid cadarnhaol ddigwydd - Rydym yn cydweithio â phobl a sefydliadau fel y gellir cymryd camau er budd y gymdeithas.

Mae'r nodau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'n tair cenhadaeth wedi'u nodi'n fanwl yn y ddogfen strategaeth bum mlynedd. Yn ogystal â'n nodau a'n canlyniadau ein hunain, rydym wedi ymrwymo i gymhwyso'r fframwaith a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau ein bod yn gweithio i sicrhau effaith hirdymor i fynd i'r afael â phroblemau parhaus tlodi, anghydraddoldeb economaidd a'r newid yn yr hinsawdd.

**CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD**
Wrth fyfyrio ar 2023-24, mae wedi bod yn flwyddyn brysur a heriol o newid a thrawsnewid, a gallwn ymfalchïo yn ein cyflawniadau wrth i ni weithio tuag at economi decach a gwyrddach.

Adroddiad Blynyddol
Ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

Mae wedi bod yn flwyddyn o newid yn y Prif Weithredwr wrth i Bethan Webber ymuno â'r tîm gweithredol ac ymddeolodd ein Cadeirydd ers tro, David Jenkins, gyda Richard Hughes yn cael ei benodi'n Gadeirydd. Gwelom gyllid Ewropeaidd yn dod i ben a pharhaom ar ein taith drawsnewid, gan addasu i strwythurau a ffyrdd newydd o weithio, gweithredu systemau newydd, ac adolygu ac esblygu ein gwasanaethau wrth i ni wynebu amgylchedd allanol mwyfwy cymhleth ac ansicr.

Yn allanol, mae cyflymder cynyddol y chwyldro technegol, dwysáu'r argyfwng hinsawdd a chyllid anwadal yn trethu pawb, yn enwedig y trydydd sector. Rydym wedi parhau i addasu a llywio'n hunain i ymateb a gallwn fod yn falch o'n cynnydd a'r effaith a gawson yn ystod blwyddyn anodd.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru wedi'i hadnewyddu, gan gynnwys cyngor ar ddechrau o'r newydd a thyfu i fusnesau cymdeithasol, a pharhau i gefnogi cymunedau i gydweithredu ar atebion gwell i dai a gofal. Fe wnaethom alluogi mwy o bobl i gael gafael ar wasanaethau digidol trwy gyflwyno ein rhaglen cynhwysiant digidol a lansiom ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth, Arweinwyr Cymdeithasol Cymru. Gweithiom gyda'r trydydd sector i wella'u haeddfedrwydd digidol a pharhaom i esblygu ein gwasanaethau ymgynghori, gan gynnwys cymorth ag ymchwil, gwerthuso, arloesi ac effaith gymdeithasol i amrywiaeth o sefydliadau ar draws sectorau, gan annog egni newydd wrth wraidd cyflawni busnes a rhedeg gwasanaethau yn wahanol. Yn ogystal, sicrhaom bron i £2 o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a wnaeth ein galluogi i ategu'r gwasanaeth a ddarperir trwy Fusnes Cymdeithasol Cymru mewn rhai ardaloedd ac ehangu rhywfaint o'n cymorth digidol mewn ardaloedd eraill.

Yn fewnol, mae'r amgylchedd cyllid allanol yn peri ansicrwydd, a cheisiom adolygiad allanol o'r ffordd rydym i'n mynd ati i greu incwm, gan dderbyn yr argymhellion i gryfhau ein dull datblygu busnes. Mae ein gweithgarwch creu incwm wedi parhau trwy gydol y flwyddyn, gan lwyddo i sicrhau cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a buddsoddiad gan yr Oak Foundation, ymhlith eraill.

Yn ganolog, cyflwynom systemau newydd, gan gynnwys system CRM, cyllid a'r gyflogres. Cadwom ein statws Aur Buddsoddwr mewn Pobl (IiP) er gwaethaf cyfnod anodd o newid ac ailstrwythuro. Gyrrwyd y systemau newydd gan yr angen am symud o weinyddion i'r cwmwl, gan bontio'n llwyddiannus ac yn ddi-dor. Hefyd, cadwom ein hachrediadau Cyber Essentials a Cyber Essentials Plus yn llwyddiannus.

Mae busnesau cymdeithasol a chynlluniau cyfranddaliadau cymunedol yn hanfodol i gymunedau lleol, gan greu amgylcheddau lleol sy'n atgynhyrchu'n fwy ac yn ailddosbarthu'n fwy o fewn yr amgylchedd lleol. Maen nhw'n creu cyfleoedd hyfforddiant, gwaith a gwirfoddoli, ac yn darparu amwynderau a gwasanaethau mwy effeithiol lle mae'r angen mwyaf amdanynt. Gall busnesau cymdeithasol gryfhau'r cysylltiadau rhwng pobl, gan leihau unigrwydd ac ynysu, ynghyd â lleihau effaith yr argyfwng hinsawdd trwy ddatrysiadau cynaliadwy. Eleni, trwy ein rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru a phrosiectau wedi'u hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin, cefnogodd tîm Cwmpas 544 o fusnesau cymdeithasol, gan gynnwys cymorth i 321 ddechrau arni, 165 a oedd am gymorth i dyfu, a chorfforwyd 74 o fusnesau cymdeithasol newydd. Mae busnesau cymdeithasol a grymuso cymunedol yn elfennau hanfodol i adeiladu lleoedd ffyniannus, cynaliadwy a gwydn, ac mae'r cymorth a gynigir trwy Fusnes Cymdeithasol Cymru, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, wedi bod yn hanfodol i barhau i gefnogi twf yn y sector.

Yn ogystal, darparodd Busnes Cymdeithasol Cymru gymorth wedi'i ariannu'n llawn i fusnesau a oedd am drosglwyddo perchnogaeth i'w gweithwyr. Cefnogom 58 o fusnesau eleni gyda 10 yn cwblhau eu taith drosglwyddo i berchnogaeth y gweithwyr. Rydym yn falch o fod wedi taro targed Llywodraeth Cymru, sef dyblu maint y sector 2 flynedd yn gynnar.

Mae perchnogaeth gymunedol ar asedau yn caniatáu i gymunedau lleol gael mwy o reolaeth dros eu hadnoddau a'u hasedau eu hunain, gan arwain at fwy o fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'n annog ymdeimlad o berchnogaeth a balchder cymunedol, gan arwain at gymunedau cryfach a mwy gwydn. Mae ein rhaglen Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru, a ariennir gan Gronfa Gymunedol Cymru y Loteri Genedlaethol, yn helpu cymunedau i ddiogelu, prynu a chryfhau eu hasedau. Eleni, cefnogom 11 o gymunedau i baratoi cynllun cyfranddaliadau. Codwyd £1,791,799 trwy gynlluniau cyfranddaliadau cymunedol, gyda chyllid cyfatebol ychwanegol neu £2,006,276 wedi'u sicrhau.

Cwblhaom ein cymorth, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, i gefnogi sefydlu Fforymau a Chymuned Ymarfer Genedlaethol i helpu gwreiddio Adran 16 a thyfu cyfraniad y trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau gofal, gan gynnwys darparu adnoddau a phecyn cymorth. Yn ogystal, parhaom i beilota a gwerthuso modelau gofal cymdeithasol trawsffurfiol i wella deilliannau, gan weithio gyda Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr a, chyda chefnogaeth y Loteri Genedlaethol, yng Nghaerdydd a Sir Benfro. Yn ogystal, cyflawnom brosiect bach ond pwysig i Lywodraeth Cymru i weithio gydag ychydig o ddarparwyr gofal preswyl preifat i blant i'w cynorthwyo i ganfod y cyfrwng priodol i newid i fodel nid er elw o dan agenda Dileu Elw o Ofal. Gan adeiladu ar dystiolaeth yr holl waith hwn, a gwaith o brosiectau blaenorol, rydym ni'n datblygu Theori Newid ar gyfer iechyd a gofal a fydd yn llywio ein ffocws ar y meysydd hyn yn y dyfodol.

Mae cynhwysiant digidol yn hanfodol i sicrhau bod gan bawb fynediad i wasanaethau, amwynderau a buddion byd mwyfwy digidol. Gall wella mynediad i addysg, cyflogaeth, gofal iechyd a gwasanaethau'r llywodraeth, a gall helpu i leihau ynysu cymdeithasol trwy fynd i'r afael â'r gagendor digidol a darparu hyfforddiant a chefnogaeth i sefydliadau sy'n wynebau dibynadwy i bobl sy'n wynebu allgau digidol. Mae Cymunedau Digidol Cymru (CDC) yn creu cymdeithas decach a mwy cysylltiedig. Eleni, fe wnaeth ein tîm CDC gynorthwyo 30,812 o bobl i fynd ar-lein a rhoddont hyfforddiant sgiliau digidol i 3,225 o staff a gwirfoddolwyr.

Roedd y cyhoeddiad annisgwyl am doriad arfaethedig i gyllideb Cymunedau Digidol Cymru yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023 yn anodd a chollwyd tipyn o gapasiti rhwng Ionawr a Mawrth wrth ymateb, ailddylunio'r rhaglen ac ailstrwythuro'r tîm, ac ar yr un pryd ddadlau'r achos dros barhau â chyllid. Yn ffodus, cafodd y penderfyniad ei wyrdroi ac adferwyd y cyllid yn y gyllideb derfynol ym mis Chwefror. Er y bu'n amser anodd a bu'n rhaid i gapasiti newid er mwyn ymateb, gan arafu cynnydd mewn meysydd eraill, dangosom gryn allu i addasu a gwydnwch a daeth rhai buddion i'r amlwg o'r broses.

Trwy raglen NEWID, gan weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo'r trydydd sector i gynyddu eu haeddfedrwydd digidol, cefnogom 25 o sefydliadau i gynyddu eu hyder a'u gallu wrth ddefnyddio dulliau a thechnoleg ddigidol i gyflawni eu diben.

Mae tai cydweithredol a thai dan arweiniad y gymuned yn cynnig cyfle i bobl ddod ynghyd â phennu'r math o gartrefi a chymunedau y dymunant fyw ynddynt. Trwy gydweithredu ag awdurdodau lleol, buddsoddwyr a datblygwyr, mae'r grwpiau hyn yn hanfodol ar gyfer ffordd wahanol ymlaen wrth greu opsiynau tai fforddiadwy sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol cymunedau lleol. Eleni, roeddem wedi gallu cynorthwyo 30 o gwmnïau tai cydweithredol presennol ar draws Cymru, gyda'r potensial i ddatblygu hyd at 265 o dai cydweithredol newydd. Diolch i gyllid gan y Nationwide Foundation a Llywodraeth Cymru, roeddem wedi gallu darparu cymorth hanfodol i'r grwpiau hyn a hyrwyddo datrysiadau tai wedi'u harwain gan y gymuned, sy'n fwy cynhwysol. Yn ogystal, sicrhaom fuddsoddiad ychwanegol gan yr Oak Foundation i ategu ein gwaith ar gynyddu datblygiad tai cydweithredol a thai dan arweiniad y Gymuned yng Nghymru. Mae nifer o gamau y mae angen i grwpiau weithio drwyddynt, gyda llawer o rwystrau i'w goresgyn, ond gwnaed cynnydd cyffrous mewn nifer o feysydd lleol i gryfhau'r ffrwd o dai fydd yn cael eu hadeiladu.

Yn ein prosiect Perthyn, dyfarnwyd £267,956 i 27 grŵp cymunedol trwy grantiau bach. Ar draws 6 sir yng ngogledd a gorllewin Cymru, fe wnaethom ni a'n partneriaid, Dolan a Planed, gynorthwyo:

- 63 o grwpiau cymunedol gyda chymorth cam cynnar
- cynnal digwyddiadau/cyfarfodydd ar-lein ac wyneb yn wyneb ar ddatblygiad cymunedol ac ysbrydoli cymunedau, gydag 892 o bobl yn bresennol yn ystod y flwyddyn
- creu 11 menter gymdeithasol/gydweithredol newydd
- 19 grŵp yn ymchwilio i dai dan arweiniad y gymuned
- mae 216 o wirfoddolwyr wedi bod yn gysylltiedig

Mae diddordeb gan grwpiau cymunedol wedi tyfu gyda phob cylch, gyda llawer o grwpiau cymunedol yn datgan na fyddent wedi gallu symud ymlaen heb gymorth a chyllid Perthyn. Mae'r arian wedi bod yn amhrisiadwy ar gyfer manteisio ar gyllid ychwanegol, ar raddfa fwy, i ddatblygu'u prosiectau ymhellach trwy alluogi grwpiau i wneud gwaith datblygu cymunedol cam cynnar, lle byddai diffyg cyllid wedi bod yn rhwystr rhag cynnydd. Ar y cyfan, mae grwpiau eisiau amddiffyn asedau lleol sydd mewn perygl o gael eu colli, neu fywiogi asedau coll trwy berchnogaeth gymunedol, gan amddiffyn ac annog y Gymraeg a sicrhau bod pobl leol yn gallu manteisio ar dai fforddiadwy. Mae'r grwpiau sy'n manteisio ar gymorth Perthyn yn ymroi i wella'u cymunedau lleol wrth gynnal, cynyddu ac amddiffyn y defnydd o'r Gymraeg er budd y gymuned bresennol ac i genedlaethau'r dyfodol.

Lansiom Arweinwyr Cymdeithasol Cymru, sef rhaglen datblygu arweinyddiaeth newydd, a gyflwynir mewn partneriaeth â Clore a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Datblygom raglenni arweinyddiaeth gymunedol ac arweinyddiaeth genedlaethol a fydd yn cefnogi arweinwyr mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yn ystod pob cam o'u taith arwain. Nod y rhaglen Arweinwyr Cymunedol, sy'n para dros 6 mis, gyda sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb mewn tri gwahanol leoliad, sef Casnewydd, Wrecsam ac Abertawe, yw dwyn arweinwyr ynghyd i feithrin capasiti, cryfhau cymunedau a dysgu oddi wrth ei gilydd. Ac yntau'n agored i arweinwyr ar bob lefel profiad, roedd mwy o geisiadau na lleoedd i'r rhaglen Arweinwyr Cymunedol gyntaf. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Cynghori Arweinwyr Cymdeithasol Cymru ar 8 Chwefror 2024 ac mae gwefan wedi'i lansio, hefyd.

Parhaodd ein Tîm Twf Busnes ac Ymgynghori i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ymgynghori i nifer gynyddol o gleientiaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, gan gynnwys byrddau iechyd, cynghorau lleol a chymdeithasau tai. Cyflwynom amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau ar themâu gwerth cymdeithasol, trawsnewid digidol a dysgu a datblygu. Bu'n flwyddyn o ganlyniadau cymysg ar draws wahanol agweddau o'r cynnig ymgynghori, gyda'r amgylchedd ariannol ehangach yn effeithio ar werthiant rhai cynhyrchion, ond mae'n cynnig dysgu cyfoethog i esblygiad ein model busnes a'n dull wrth fwrw ymlaen.

Cefnogom 20 o sefydliadau newydd i gynyddu eu gwerth cymdeithasol a hwythau o amrywiaeth o sectorau gwahanol, gan gynnwys addysg bellach, adeiladu a chyrff sector cyhoeddus. Uchafbwynt oedd ymchwil i Golegau Cymru yn adolygu'r gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd gan y Sector Addysg Bellach yng Nghymru, a ddaeth i'r casgliad gyda chyhoeddi adroddiad ym mis Ebrill. Rydym yn parhau i weithio gydag Is-adran Seilwaith Digidol Llywodraeth Cymru, gan gynorthwyo â chydlynu eu cysylltiad â menter 5G Drive, a ariennir gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT) (gynt y DCMS) Llywodraeth y DU. Mae'r consortiwm hwn yn cynnwys Virgin Media, O2, Cisco, Wave Mobile a Llywodraeth y DU i beilota seilwaith symudol celloedd bach mewn mannau heb signal ar draws Cymru.

Cynhaliom nifer o Hacathonau Dechrau Rhywbeth Da ar draws Cymru, gan weithio gydag amrywiaeth o gyrff i ddwyn rhanddeiliaid ynghyd er mwyn darganfod atebion arloesol i broblemau cymhleth. Cynhaliom ddigwyddiad ar y cyd â Google yn edrych ar "Ddyfodol Busnesau Cymru", gan archwilio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sut y gall busnesau gyfrannu at gyflawni ei nodau, ynghyd ag archwilio rôl deallusrwydd artiffisial (AI) mewn busnes. Cwmpasom amrywiaeth eang o faterion cymhleth, o haciau twristiaeth gymunedol i systemau bwyd lleol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, cyflwynom ein cynllun gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Yn fewnol, cynhaliom archwiliad amrywiaeth o'n bwrdd ymddiriedolwyr a fydd yn llywio cynllunio olyniaeth at y dyfodol. Rydym wedi ymuno â chynllun Llwybrau at y Bwrdd ac mae gennym aelod cysgodol newydd o'r bwrdd a fydd yn cael ei fentora gan aelod presennol o'r bwrdd. Cynhaliom ymgyrch ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ar thema #InspireInclusion, gan ganolbwyntio ar amlygu gweithredoedd i feithrin grymuso economaidd menywod a chefnogi menywod a merched i gymryd rhan mewn arweinyddiaeth, gwneud penderfyniadau, busnes a STEM, yn canolbwyntio ar fenywod ar draws y sector mentrau cymdeithasol. Gweithiom gyda'r Cyngor Cysylltiadau Hil a Sefydliad Taylor Bennett i sicrhau intern yn ein tîm Polisi a Chyfathrebu, a ymunodd â ni ar leoliad 3 mis. Y nod oedd annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, sy'n cael eu tangynrychioli'n draddodiadol ym marchnad lafur Cymru ac roedd yr intern yn aelod gwerthfawr o'r tîm, gan gyfrannu blogiau a chyfathrebiadau ar ei phrofiad a'i hamser gyda ni.

Yn yr ail flwyddyn hon o'r strategaeth, rydym wedi gwneud cynnydd da a monitro rheolaidd yn cael ei adrodd i Aelodau'r Bwrdd. Fe wnaethom lywio'r pontio anodd o gyllid Ewropeaidd yn ddiogel a rheoli'r risgiau a oedd ynghlwm â newidiadau niferus eraill yn ystod y flwyddyn. Wrth i ni gychwyn ar drydedd flwyddyn y strategaeth, rydym ni'n canolbwyntio o hyd ar gyllid yn y dyfodol a'r ansicrwydd y tu hwnt i 2024-25 i lawer o'n rhaglenni. Bydd ein ffocws ar baratoi at hynny trwy gynnal perthnasoedd da â'n cyllidwyr a darparu tystiolaeth o'r effaith rydym ni'n ei chael, gan godi proffil ein gwaith gyda phenderfynwyr a chyllidwyr allweddol, adolygu ein gwasanaethau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, esblygu ac adeiladu arnynt i dyfu ein heffaith, amrywio ein cyllidwyr, a chryfhau ein partneriaethau lle y gallwn ychwanegu gwerth a chreu mwy o effaith gyda'n gilydd.

**ADOLYGIAD A CHANLYNIADAU ARIANNOL**
Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd y gymdeithas drosiant o £6.9m (2023 - £7.3m) o gyfuniad o grantiau, incwm

contract a gwaith ymgynghorol. Cynhyrchwyd gwarged o £56K (2023 - £88k) yn y cyfnod. Mae mwyafrif gweithgareddau'r gymdeithas yn gweithredu ar sail adennill costau.

Mae'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer 2023-2024 yn cynnwys:

- incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â chyflawni contract Cymunedau Digidol Cymru;
- cyfuniad o grantiau Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru i gefnogi ein prosiectau Busnes Cymdeithasol Cymru;
- cyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gweithgareddau craidd a gwaith prosiect unigol penodol;
- incwm grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Fawr i ariannu ein prosiect Cadernid Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru, a derbyniwyd incwm hefyd o wahanol ffynonellau ar gyfer Gweithgareddau Gwarged Cymdeithasol.

Mae strategaeth fuddsoddi ddarbodus ar waith i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu diogelu. Yr asedau net ar 31 Mawrth 2024 oedd £1,171K yn cynnwys cronfa wrth gefn gyffredinol o £559K, a chronfeydd wrth gefn dynodedig o £612K. Mae cronfeydd wrth gefn dynodedig yn darparu adnoddau er mwyn sicrhau parhad a datblygiad y gymdeithas a chronfa gost gritigol os bydd yn rhaid i'r gymdeithas leihau ei gweithgareddau'n sylweddol, lleihau o ran maint neu gau.

**DATGANIAD YNGHYLCH DATGELU GWYBODAETH I ARCHWILWYR**

Hyd y gŵyr y Bwrdd, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y gymdeithas yn ymwybodol ohoni, ac mae pob aelod o'r Bwrdd wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd fel aelod o'r Bwrdd er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y gymdeithas yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**ARCHWILWYR**

Bydd yr archwilwyr, Haines Watts, yn cael eu cynnig i'w hailbenodi yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i ddod.

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R BWRDD**

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a chyfraith berthnasol). Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r datganiadau ariannol roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r gymdeithas a'i gormodedd o incwm dros wariant am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i'r Bwrdd:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson;
- llunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- datgan a ddilynwyd Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y gymdeithas yn parhau mewn busnes.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gynnal systemau rheolaeth fewnol boddhaol a chadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Gymdeithas ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r gymdeithas ac felly maent yn gyfrifol am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gywirdeb ac am gynnal a chadw'r wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y gymdeithas. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Ar ran y Bwrdd:

R Hughes • Cadeirydd

Dyddiad: .........................................

Adroddiad Blynyddol
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cwmpas (y 'gymdeithas') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys yr Incwm a Gwariant, y Fantolen a'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r gymdeithas ar 31 Mawrth 2024 ac o'i gwarged ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar yr adeg honno;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

**Sail ar gyfer barn**

Cynhaliom ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU) (ISAs (UK)) a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio yn yr adran datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer ein barn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y cyfarwyddwyr ar sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr o ran busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall fel petai wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn yn dod i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd hynny. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn gysylltiedig â'r materion canlynol lle mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw llyfrau cyfrifon cywir, ac nid yw wedi cynnal system foddhaol o reolaeth dros ei thrafodion, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth; neu
- nad yw'r cyfrif refeniw, unrhyw gyfrifon eraill y mae ein hadroddiad yn ymwneud â nhw, a'r fantolen yn cyd-fynd â llyfrau cyfrifon y Gymdeithas; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol at ddibenion ein harchwiliad.

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau Cwmpas

## Cyfrifoldebau Rheoli Pwyllgorau

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Bwrdd a nodir ar dudalen 5, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac ar gyfer rheolaeth fewnol o'r fath y mae'n penderfynu ar yr hyn sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r gymdeithas i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Bwrdd naill ai'n bwriadu diddymu'r gymdeithas neu i roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Mae ein gweithdrefnau cynllunio yn nodi'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithrediadau a datganiadau ariannol y gymdeithas. Caiff y rhain eu hadolygu'n fewnol gyda'r tîm archwilio gan gynnwys profiad a disgwyliadau perthnasol o'r diwydiant yn ogystal ag yn allanol gyda rheolwyr y cleient. Y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, UK GAAP (FRS 102) a deddfwriaeth dreth berthnasol.

Unwaith y cânt eu nodi, byddwn yn asesu risgiau camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau, afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll ac yn addasu ein profion yn unol â hynny. Mae ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys:

- Trafod gyda'r rheolwyr pa feysydd o'r gymdeithas y maent yn credu sy'n fwy agored i dwyll, ac a oes ganddynt unrhyw wybodaeth neu amheuaeth o weithgareddau twyllodrus; a
- Cael dealltwriaeth o'r rheolaethau allweddol a roddwyd ar waith gan y gymdeithas i fynd i'r afael â risgiau a nodwyd, asesu effeithiolrwydd y rheini a thrafod sut y caiff y rhain eu cynnal a'u monitro'n fewnol; ac
- Asesu'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru ac adolygu a phrofi cofnodion dyddlyfr a wneir yn y system gyfrifyddu; a
- Herio tybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan y gymdeithas yn gysylltiedig â'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- Thrafod rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol y gymdeithas ag aelodau a rheolwyr ac a oes ganddynt unrhyw wybodaeth neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio.

Er bod yr archwiliad wedi'i gynllunio a'i gynnal yn unol ag ISAs (DU) mae risg anochel o hyd na fydd camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol yn cael eu canfod oherwydd cyfyngiadau cynhenid yr archwiliad, ac oherwydd eu natur, unrhyw achosion o dwyll o'r fath neu afreoleidd-dra sy'n debygol o gynnwys cydgynllwynio, ffugio, camliwio bwriadol, neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad yr Archwilwyr.

**Defnydd o'n hadroddiad**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r gymdeithas yn unig, fel corff, yn unol ag Adran 87 o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r gymdeithas y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r gymdeithas ac aelodau'r gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Victoria Carter (Uwch Archwilydd Statudol)
Ar ran Haines Watts Wales LLP, Archwilwyr Statudol
7 Neptune Court
Vanguard Way
Caerdydd
CF24 5PJ

Dyddiad: ............................................

## Incwm a Gwariant
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | | **2024** £ | 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| **Trosiant** | 3 | | 6,870,146 | 7,279,436 |
| Treuliau gweinyddol | 4 | | (4,747,272) | (4,701,127) |
| Costau teithio | | (97,683) | | (82,861) |
| Costau gweithredol | | | (1,987,284) | (2,410,671) |
| Gwarged gweithredu | | | 37,907 | 84,777 |
| Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | | | 18,521 | 4,881 |
| Gwarged cyn trethiant | 5 | | 56,428 | 89,658 |
| Treth ar warged | 6 | | | (902) |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol | | | 56,428 | 88,756 |

Mae'r nodiadau'n llunio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

**Cwmpas (Rhif Cofrestredig: 24287 R)**

**Mantolen**
**31 Mawrth 2024**

| | Nodiadau | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | | |
| Buddsoddiadau | 8 | 12,250 | 12,250 |
| | | 12,250 | 12,250 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 9 | 1,330,531 | 1,291,758 |
| Arian parod yn y banc | | 1,472,470 | 1,290,954 |
| | | 2,803,001 | 2,582,712 |
| **Credydwyr** | | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 10 | (1,644,170) | (1,480,309) |
| **Asedau cyfredol net** | | 1,158,831 | 1,102.403 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 1,171,081 | 1,114,653 |
| Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn | | | |
| Cyfalaf cyfranddaliadau a alwyd i fyny | 11 | 143 | 143 |
| Cronfeydd dynodedig | 12 | 611,669 | 557,216 |
| Enillion a gadwyd | 12 | 559,269 | 557,294 |
| **Cronfeydd cyfranddalwyr** | | 1,171,081 | 1,114,653 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar.......................................... a'u llofnodi ar ei ran gan:

R Hughes - Cadeirydd

J Andrews - Trysorydd

B Webber - Ysgrifennydd

Mae'r nodiadau'n llunio rhan o'r datganiadau ariannol hyn



parhad...

**Nodiadau'r Datganiadau Ariannol**
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

## 1. Gwybodaeth Statudol

Mae Cwmpas yn Gwmni Cydweithredol, o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Y swyddfa gofrestredig yw Spark Building, Maindy Road, Caerdydd, CF24 4HQ.

Mae Cwmpas wedi'i gofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

## 2. Polisïau cyfrifyddu

### Sail paratoi'r datganiadau ariannol
Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" a gofynion Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi mewn sterling, sef arian gweithredol y gymdeithas. Mae symiau ariannol yn y datganiad ariannol hwn wedi'u talgrynnu i'r £ sterling agosaf.

### Busnes gweithredol
Ar adeg cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol, mae gan y Bwrdd ddisgwyliad rhesymol bod gan y gymdeithas adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld. Mae'r Bwrdd yn mabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

### Dyfarniadau cyfrifyddu critigol a phrif ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif
Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r gymdeithas, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch swm cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo pan fo'r diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yn y cyfnod adolygu a chyfnodau yn y dyfodol lle mae'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a chyfnodau'r dyfodol.

### Prif ffynonellau ansicrwydd amcangyfrif
Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i swm cario asedau a rhwymedigaethau fel a ganlyn:

Bywydau defnyddiol ac asedau dibrisiadwy
Mae rheolwyr yn adolygu oes ddefnyddiol asedau dibrisiadwy ar bob dyddiad adrodd yn seiliedig ar y defnydd disgwyliedig o asedau'r gymdeithas. Mae'r symiau cario yn cael eu dadansoddi yn nodyn 7. Fodd bynnag, gall canlyniadau gwirioneddol amrywio oherwydd darfodiad technegol.

### Trosiant
Mae trosiant yn cynrychioli'r cyfanswm sy'n dderbyniadwy gan y gymdeithas yng nghwrs arferol busnes am wasanaethau a chyllid grant a reolir gan y gymdeithas.

### Grantiau a Chontractau
Mae grantiau'r Llywodraeth yn cael eu cydnabod ar werth teg yr ased a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy pan fo sicrwydd rhesymol y bydd amodau'r grant yn cael eu bodloni ac y bydd y grantiau'n cael eu derbyn.

Mae grant sy'n pennu amodau perfformiad yn cael ei gydnabod mewn incwm pan fodlonir yr amodau perfformiad. Mae grant a dderbyniwyd cyn bodloni'r meini prawf cydnabod yn cael ei gydnabod fel rhwymedigaeth.

2. Polisïau cyfrifyddu • parhad

**Asedau sefydlog** diriaethol
Darperir dibrisiant ar y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu'r gost llai gwerth gweddilliol amcangyfrifedig pob ased dros ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

| | |
|---|---|
| Offer cyfrifiadurol | 33.3% ar gost |
| Gosodion a ffitiadau | 20% ar gost |

Mae gan y gymdeithas bolisi cyfalafu lle dim ond asedau dros £1,500 sy'n cael eu cyfalafu.

Pennir yr ennill neu golli sy'n codi wrth waredu ased fel y gwahaniaeth rhwng derbyniadau'r gwerthiant a gwerth cario'r asedau, a chaiff ei gredydu neu ei godi i elw a cholled.

Nodir buddsoddiadau asedau sefydlog ar gost llai darpariaeth ar gyfer gostyngiad mewn gwerth.

**Amhariad asedau sefydlog**
Ar ddyddiad gorffen pob adrodd, mae'r cwmni'n adolygu symiau cario ei asedau diriaethol a'i asedau anniriaethol er mwyn penderfynu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad. Os oes unrhyw arwydd o'r fath yn bodoli, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased er mwyn pennu maint y golled amhariad (os oes un). Lle nad yw'n bosibl amcangyfrif swm adenilladwy ased unigol, mae'r cwmni'n amcangyfrif swm adenilladwy yr uned cynhyrchu arian y mae'r ased yn perthyn iddi.

Swm adenilladwy yw'r uchaf o werth teg llai costau gwerthu a gwerth defnyddio. Wrth asesu gwerth defnyddio, mae'r llifau arian amcangyfrifedig yn y dyfodol yn cael eu disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o werth amser arian a'r risgiau sy'n benodol i'r ased nad yw'r amcangyfrifon o lifau arian parod yn y dyfodol wedi'u haddasu ar eu cyfer.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased (neu uned cynhyrchu arian parod) yn llai na'i swm cario, gostyngir swm cario'r ased (neu uned cynhyrchu arian parod) i'w swm adenilladwy. Mae colled amhariad yn cael ei chydnabod ar unwaith mewn elw neu golled, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio, ac os felly bydd y golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio.

Mae colledion amhariad cydnabyddedig yn cael eu gwrthdroi os, a dim ond os, yw'r rhesymau dros y golled amhariad wedi peidio â bod yn berthnasol. Pan fydd colled amhariad yn gwrthdroi'n ddiweddarach, cynyddir swm cario'r ased (neu'r uned cynhyrchu arian parod) i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel nad yw'r swm cario uwch yn fwy na'r swm cario a fyddai wedi'i bennu pe na chydnabuwyd unrhyw golled amhariad ar gyfer yr ased (neu'r uned cynhyrchu arian) mewn blynyddoedd blaenorol. Mae gwrthdroi colled amhariad yn cael ei gydnabod ar unwaith mewn elw neu golled, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gario i mewn ar swm sydd wedi'i ailbrisio, ac os felly bydd **gwrthdroi'r golled amhariad yn cael ei drin fel cynnydd o ganlyniad i ailbrisio**.

**Offerynnau ariannol**
Mae'r gymdeithas wedi dewis cymhwyso darpariaethau Adran 11 'Offerynnau Ariannol Sylfaenol' ac Adran 12 'Materion Offerynnau Ariannol Eraill' FRS 102 i'w holl offerynnau ariannol.

Cydnabyddir offerynnau ariannol yn natganiad o sefyllfa ariannol y gymdeithas pan ddaw'r gymdeithas yn barti i ddarpariaethau cytundebol yr offeryn.

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso, gyda'r symiau net a gyflwynir yn y datganiadau ariannol, pan fydd hawl y gellir eu gorfodi i wrthbwyso'r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net neu i realeiddio'r ased a setlo'r rhwymedigaeth yr un pryd.

**Trethiant**
Mae'r dreth sy'n daladwy ar hyn o bryd yn seiliedig ar yr elw trethadwy am y flwyddyn. Mae elw trethadwy'n wahanol i elw net fel yr adroddwyd yn y cyfrif elw a cholled, oherwydd nid yw'n cynnwys eitemau o incwm neu draul sy'n drethadwy neu'n ddidynadwy mewn blynyddoedd eraill ac nid yw'n cynnwys ychwaith eitemau nad ydynt byth yn drethadwy nac yn ddidynadwy. Mae rhwymedigaeth y cwmni ar gyfer treth gyfredol yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd wedi'u deddfu neu eu deddfu'n sylweddol erbyn dyddiad gorffen yr adrodd.

**Costau pensiwn a buddion ôl-ymddeol eraill**
Mae'r cwmni'n gweithredu cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae cyfraniadau sy'n daladwy i gynllun



parhad...

pensiwn y gymdeithas yn cael eu codi i elw neu golled, yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.



parhad...

2. Polisïau cyfrifyddu • parhad

Buddion gweithwyr

Mae costau buddion gweithwyr tymor byr yn cael eu cydnabod fel rhwymedigaeth a thraul.

Cydnabyddir cost unrhyw hawl gwyliau nas defnyddiwyd yn y cyfnod y derbynnir gwasanaethau'r gweithiwr.

Mae buddion terfynu'n cael eu cydnabod ar unwaith fel traul pan fo'r gymdeithas yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth gweithiwr neu i ddarparu buddion terfynu.

Mae taliadau i gynlluniau buddion ymddeol cyfraniad diffiniedig yn cael eu codi fel traul wrth iddynt ddod yn ddyledus.

**Cronfeydd Wrth Gefn**

Mae Cwmpas wedi adolygu ei sefyllfa ariannol a'r angen i gynnal cronfeydd wrth gefn i ddarparu adnoddau digonol i ganiatáu ar gyfer parhad a datblygiad y gymdeithas.
Mae hyn er mwyn sicrhau sicrwydd ariannol, lefelau staffio priodol ac adnoddau digonol i fodloni heriau a osodir gan newidiadau mewn gweithgareddau ariannu.

Mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn ddoeth bod angen i gronfeydd wrth gefn cyffredinol fod yn ddigonol er mwyn

- osgoi'r angen i wireddu asedau sefydlog a ddelir at ddefnydd y gymdeithas.
- caniatáu trosglwyddiadau i'r amrywiol gronfeydd dynodedig fel y manylir isod

Cronfa Buddsoddi a Busnes Newydd:
Mae'r gronfa hon wedi'i sefydlu i ddynodi cronfeydd ar gyfer buddsoddi mewn cyfleoedd yn y dyfodol neu weithgareddau busnes newydd.

**Cronfa Costau Critigol:**
Mae'r gronfa hon wedi'i sefydlu i dalu costau cau sy'n codi o ganlyniad i incwm prosiect yn dod i ben. Gallai costau o'r fath gynnwys costau diswyddo. Mae'r gronfa hon i'w chadw ar lefel briodol, wedi'i chyfrifo'n flynyddol a bydd arian yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn ac ohoni i gyflawni hyn.

**Cronfa Amnewid TG:**
Mae'r gronfa hon wedi'i sefydlu i dalu costau adnewyddu offer TG ar sail gylchol neu yn ôl yr angen.

3. Trosiant

Mae'r trosiant a'r gwarged cyn treth i'w priodoli i brif weithgarwch y gymdeithas. Mae'r trosiant ar gyfer y flwyddyn yn cael ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Incwm grant a dderbyniwyd: | | |
| • Llywodraeth Cymru | 1,867,477 | 757,474 |
| • Cyllid Ewropeaidd | 831,206 | 3,439,510 |
| Incwm Contract | | |
| • Llywodraeth Cymru | 2,555,219 | 2,037,061 |
| Incwm grant ac incwm contract arall | 1,616,244 | 1,045,391 |
| Cyfanswm | 6,870,146 | 7,279,436 |

4. **Gweithwyr a chyfarwyddwyr**

Nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd 91 (2023• 100).

4. Gweithwyr a chyfarwyddwyr • parhad

| | **2024** | **2023** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Cyflogau | 4,086,895 | 3,9 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 412,605 | 64, |
| Costau pensiwn staff | 234,009 | 95 |
| Adnoddau hyfforddi a datblygu | 10,472 | 4 |
| Recriwtio | 3,291 | 439,617 |
| | | 242,850 |
| | | 34,886 |
| | | 18 |
| | | ,820 |
| | 4,747,272 | 4,701,127 |

Ni thelir unrhyw dâl i aelodau bwrdd.

Tâl personél rheoli allweddol
Mae tâl personél rheoli allweddol, sef y Prif Weithredwr a'r uwch dîm arwain, fel a ganlyn:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Iawndal cyfanredol | 420,371 | 394,034 |

Roedd yr uwch dîm arweinyddiaeth yn 2024 yn cynnwys 5 gweithiwr (2023: 5).

5. **Elw cyn trethiant**

Nodir y gwarged gweithredu ar ôl codi tâl:

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Dibrisiant • - asedau sy'n eiddo | | |
| Tâl yr archwilwyr: | | |
| • i archwilio'r gymdeithas | 5,950 | 3,700 |
| - **gwasanaethau eraill** | 7,620 | 84,875 |
| Rhent prydles gweithredu | 30,862 | 65,319 |
| Costau pensiwn | 234,009 | 242,850 |

6. **Trethiant**

**Dadansoddiad o'r tâl treth**
Roedd y tâl treth ar y gwarged am y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2024** | **2023** |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Treth gyfredol: | | |
| Treth gorfforaeth y DU | | 902 |
| Treth ar warged | | 902 |

Cafodd treth gorfforaeth y DU ei chodi ar 19% yn 2023.



parhad...

6. Trethiant • parhad

Cysoni cyfanswm y tâl treth sydd wedi'i gynnwys mewn elw a cholled
Mae'r dreth a aseswyd ar gyfer y flwyddyn yn is na chyfradd safonol y dreth gorfforaeth yn y DU. Esbonnir y gwahaniaeth isod:

| | **2024** £ | **2023** £ |
|---|---|---|
| Gwarged cyn treth | 56,428 | 89,658 |
| Gwarged wedi'i luosi â chyfradd safonol treth gorfforaeth y DU o 19% (2023 • 19%) | 10,721 | 17,035 |
| Effeithiau:: | | |
| Gwarged ddim yn destun treth | (10,721) | (16,133) |
| Cyfanswm y tâl treth | | 902 |

Ac eithrio treth gorfforaeth ar log banc crynswth a dderbyniwyd, nid oes trethiant yn daladwy gan fod Cyllid a Thollau EF yn ystyried bod y gymdeithas yn sefydliad "nid-er-elw".

7. Asedau sefydlog diriaethol

| | Offer cyfrifiadurol £ |
|---|---|
| Cost | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | |
| a 31 Mawrth 2024 | 40,757 |
| Dibrisiant | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | |
| a 31 Mawrth 2024 | 40,757 |
| Gwerth llyfr net | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | |
| Ar 31 Mawrth 2023 | |

8. Buddsoddiadau asedau sefydlog

| | Buddsoddiadau eraill £ |
|---|---|
| **Cost** | |
| Ar 1 Ebrill 2023 | 12,250 |
| a 31 Mawrth 2024 | 12,250 |
| **Gwerth llyfr net** | |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 12,250 |
| Ar 31 Mawrth 2023 | |

Mae'r buddsoddiad asedau sefydlog yn cynrychioli'r canlynol:

£250 mewn Cyfalaf Cymunedol ICOF;
£10,000 yn Egni Coop;
£2,000 yn Tir Cyffredin Housing Co-operative Ltd



parhad...

9. Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Dyledwyr masnach | 307,257 | 132,611 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,023,274 | 1,159,147 |
| | 1,330,531 | 1,291,758 |

10. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 193,770 | 244,081 |
| Treth | | 902 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | | 33,137 |
| TAW | 89,753 | |
| Incwm gohiriedig | 1,067,862 | 1,067,579 |
| Treuliau cronedig | 292,785 | 134,610 |
| | 1,644,170 | 1,480,309 |

11. Cyfalaf cyfrannau wedi’i alw

Wedi'i glustnodi, ei gyhoeddi a'i dalu'n llawn:

| Nifer: | Dosbarth: | Gwerth Enwol: | 2024 £ | 2023 £ |
|---|---|---|---|---|
| 143 | Cyffredin | £1 | 143 | 143 |

**12. Cronfeydd wrth gefn**

| | Ar 1 Ebrill 2023 £ | **Symudiad yn y cyfnod** £ | Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn £ | **Ar 31 Mawrth 2024** £ |
|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd dynodedig wrth gefn** | | | | |
| Buddsoddiad a busnes newydd | 200,000 | | | 200,000 |
| Cronfa costau critigol | 292,216 | | 54,453 | 346,669 |
| Cronfa adnewyddu TG | 65,000 | | | 65,000 |
| **Cyfanswm neilltuedig wrth gefn** | 557,216 | | 54,453 | **611,669** |
| Cronfa gyffredinol | 557,294 | 56,428 | (54,453) | **559,269** |
| Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn | 1,114,510 | | | **1,170,938** |

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chostau dileu swyddi, a gostyngiad mewn rhwymedigaethau rhent a chostau swyddfa.

13. **Datgeliadau partïon cysylltiedig**

Ni dderbyniodd y bwrdd cyfarwyddwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol. Nid oes unrhyw warantau wedi'u rhoi na'u derbyn.

Yn ystod y flwyddyn roedd y treuliau a ad-dalwyd i aelodau yn £195 (2023: £317).



parhad...

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol • parhad
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

### 14. Cysoni symudiadau mewn cronfeydd cyfranddalwyr

| | 2024 | 2023 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol | 56.428 | 88,756 |
| Symudiad ar gyfalaf cyfranddaliadau | 0 | !8! |
| | 56,428 | |
| Ychwanegiad net at gronfeydd cyfranddalwyr | | 88,748 |
| Agor cronfeydd cyfranddalwyr | 1,114,653 | 1,025,905 |
| Cau cronfeydd cyfranddalwyr | 1,171,081 | 1,114,653 |

Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl
ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2024

| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Trosiant** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 4,422,696 | | 2,794,535 | |
| Cyllid Ewropeaidd | 831,206 | | 3,439,510 | |
| Cyllid arall | 1,616,244 | | 1,045,391 | |
| | | 6,870,146 | | 7,279,436 |
| Incwm arall | | | | |
| Llog cyfrif cadw | | 18,521 | | 4,881 |
| | | 6,888,667 | | 7,284,317 |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau staff | 4,747,272 | | 4,701,127 | |
| Marchnata | 227,743 | | 381,818 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 97,685 | | 82,861 | |
| Gorbenion | | | | |
| TGCh | 266,856 | | 173,326 | |
| TAW anadferadwy | 22,083 | | 223,913 | |
| Cefnogaeth prosiect | 1,098,035 | | 1,293,374 | |
| Cyngor proffesiynol | 372,565 | | 338,240 | |
| | | 6,832,239 | | 7,194,659 |
| **Gwarged net** | | 56,428 | | 89,658 |

Nid yw'r dudalen hon yn llunio rhan o'r datganiadau ariannol statudol

**Rhaglen Fenter**
**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024**

| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Trosiant** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 1,712,798 | | 264,443 | |
| Cyllid Ewropeaidd | 831,206 | | 3,439,510 | |
| Cyllid arall | 236,249 | | 292,593 | |
| | | 2,780,253 | | 3,996,546 |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau staff | 1,836,288 | | 2,509,543 | |
| Marchnata | 105,631 | | 192,006 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 21,363 | | 27,172 | |
| Gorbenion | 268,813 | | 297,420 | |
| TGCh | 31,510 | | 26,484 | |
| TAW anadferadwy | **21,244** | | 143,438 | |
| Cefnogaeth prosiect | 405,867 | | 685,386 | |
| Cyngor proffesiynol | 35,268 | | 30,085 | |
| | | 2.725,984 | | 3,911,534 |
| **Gwarged net** | | 54,269 | | 85,012 |

Nid yw'r dudalen hon yn llunio rhan o'r datganiadau ariannol hyn

**Cymunedau Cynhwysol**
**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024**

| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Trosiant** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 2,529,574 | | 2,065,947 | |
| Cyllid arall | 193,624 | | 149062 | |
| | | 2,723,198 | | 2,215,009 |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau staff | 1,618,699 | | 1,419,120 | |
| Marchnata | 57,069 | | 59,130 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 37,020 | | 28,247 | |
| Gorbenion | 277,896 | | 349,158 | |
| TGCh | 6,597 | | 20,912 | |
| TAW anadferadwy | 809 | | 6,732 | |
| Cefnogaeth prosiect | 600,016 | | 252,797 | |
| Cyngor proffesiynol | 113,409 | | 78,911 | |
| | | 2,711,515 | | 2,215,007 |
| **Gwarged net** | | 11,683 | | 2 |

**Masnachol**
**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024**

| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Trosiant** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 25,645 | | 278,718 | |
| Cyllid arall | 1,186,030 | | 801 001 | |
| | | 1,211,675 | | 1,079,719 |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau staff | 855,955 | | 454,019 | |
| Marchnata | 34,965 | | 18,876 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 22,801 | | 17,631 | |
| Gorbenion | 153,729 | | 73,533 | |
| TGCh | 41,968 | | (1,330) | |
| TAW anadferadwy | 30 | | 11,489 | |
| Cefnogaeth prosiect | 62,671 | | 350,354 | |
| Cyngor proffesiynol | 89,914 | | 81,712 | |
| | | 1,262,033 | | 1,006,284 |
| **(Diffyg)/gwarged net** | | (50,358) | | 73,435 |

**Gweithgarwch Canolog**
**Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024**

| | 2024 | | 2023 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Trosiant** | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 154,679 | | 185,427 | |
| Cyllid arall | 341 | | (197,265) | |
| | | 155,020 | | (11,838) |
| Incwm arall | | | | |
| Llog cyfrif cadw | | 18,521 | | 4,881 |
| | | 173,541 | | (6,957) |
| **Gwariant** | | | | |
| Costau staff | 436,330 | | 318,445 | |
| Marchnata | 30,078 | | 111,806 | |
| Teithio a chynhaliaeth | 16,500 | | 9,811 | |
| Gorbenion | (700,437) | | (720,111) | |
| TGCh | 186,781 | | 127,260 | |
| TAW anadferadwy | | | 62,254 | |
| Cefnogaeth prosiect | 29,481 | | 4,837 | |
| Cyngor proffesiynol | 133,974 | | 147,532 | |
| | | 132,707 | | 61,834 |
| **Gwarged/(diffyg) net** | | 40,834 | | (68,791) |

Nid yw'r dudalen hon yn llunio rhan o'r datganiadau ariannol